

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pierhead Street
Caerdydd
CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru

29/07/2019

Annwyl Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

1. Diolch ichi am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y Bil uchod. Mae fy sylwadau wedi'u cyfyngu i effaith darpariaethau'r Bil ar ofal iechyd a gofal cymdeithasol a gynigir i siaradwyr Cymraeg. Yn benodol hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau isod:
 - Nid wyf o'r farn fod y memorandwm esboniadol yn cydnabod yn ddigonol bwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd Cymraeg i siaradwyr Cymraeg fel mater o ansawdd gwasanaethau iechyd. Gofynnaf ichi fel Pwyllgor i bwysu i sicrhau y cydnabyddir yn llawn y gall peidio â darparu gwasanaethau iechyd yn y Gymraeg fod yn fater o ddiffyg ansawdd gwasanaethau iechyd ac yr adlewyrchir hynny yn y Bil hwn (adran 2.6 y llythyr hwn).
 - Gyda golwg i'r dyfodol credaf bod angen dechrau trafodaeth o ddifrif am sefyllfa'r Gymraeg o fewn gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o 'ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol' fel y nodir yn *Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*¹ (adran 2.7 y llythyr hwn) oherwydd bod darpariaethau cyfreithiol ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn Gymraeg yn amrywio.
 - Gofynnaf ichi fel Pwyllgor geisio sicrhau y rhoddir y Gymraeg yn ganolog i'r ddyletswydd gonestrwydd a fydd ar gyrf GIG (adran 3.1).

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>



- Er mwyn sicrhau y bydd gofyn i'r Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg cyn gynted ag y bo modd ac er mwyn hwyluso trosglwyddo'r dyletswyddau hyn yn llyfn o'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a'r Cynghorau Iechyd Cymuned, awgrymaf mai'r dull gorau fyddai trwy ddiwygio'r cyfeiriadau at y cyrff hyn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn Atodlen 3 y Bil hwn (adran 5.1) .

2. Rhan 2 y Bil – Gwella Gwasanaethau Iechyd

- 2.1 Er gwaethaf cyfeiriadau polisi at bwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd a gofal Cymraeg, megis yn *Mwy na Geiriau: Cynllun Gweithredu 2019-20²³* nid wyf yn ymwybodol o ddeddfwriaeth ym maes iechyd sy'n rhoi sicrwydd i gleifion y byddant yn derbyn gwasanaethau gofal iechyd clinigol yn Gymraeg os ydynt yn dymuno hynny ac yn gosod dyletswydd ar gyrrff iechyd i gynllunio ar gyfer gwneud hynny. Gan fod y ddeddfwriaeth arfaethedig hon yn ymwneud â gwella gwasanaethau iechyd ac yn canolbwyntio yn rhan 2 ar ansawdd gwasanaethau iechyd mae diffyg o'r fath yn golygu bod diffyg yn y ffon fesur y gellir ei defnyddio i fesur ansawdd gwasanaethau iechyd yn y Gymraeg. Mae hyn yn groes i'r sefyllfa ym maes gofal cymdeithasol fel y nodaf isod.
- 2.2 **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**
Ym maes gofal cymdeithasol mae gofynion penodol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ynghylch y Gymraeg gan gynnwys cyfrwng iaith asesiadau, ystyried y Gymraeg wrth gomisiynu a darparu gofal ac mewn cynlluniau gofal unigol a baratoir yn unol â'r Ddeddf. Mae adran 14(1) yn nodi bod gofyn i awdurdodau lleol a phob Bwrdd Iechyd Lleol asesu ar y cyd ystod a lefel y gwasanaethau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl yn ardal yr awdurdod lleol ac ystod a lefel y gwasanaethau ataliol yn ogystal. Rhaid iddynt hefyd asesu ar y cyd y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu'r ystod a'r lefel o wasanaethau a adnabuwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Ddeddf a Rheoliadau a Chod Ymarfer Rhan 2 yn cynnwys manylder am baratoi cynllun gofal a chymorth, ac yn benodol am hawliau a chyfrifoldebau pobl sydd angen gofal a chymorth i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r Cod yn datgan pan fo pobl yn defnyddio gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid i gyflawni eu cynllun cymorth a gofal, 'gall pobl ddisgwyl cyflawni canlyniadau personol sy'n adlewyrchu'r datganiadau canlyniadau llesiant cenedlaethol canlynol: Rwy'n cael gofal a chymorth trwy'r Gymraeg os bydda i eu hangen.'⁴

²<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf>

³ Gweler er enghraifft gyflwyniad Gweinidogion y Llywodraeth ar dudalen 2, 'I lawer o deuluoedd ac unigolion, mae gofal o ansawdd uchel yn golygu'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, a hynny oherwydd eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu hiaith eu hunain. <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/mwy-na-geiriau-cynllun-gweithredu-2019-2020.pdf>

⁴Llywodraeth Cymru, *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Cod Ymarfer Rhan 2 Swyddogaethau Cyffredinol*, t. 10.

<https://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2cy.pdf>



2.3 Safonau'r Gymraeg ac awdurdodau lleol

Ers 2016 mae gofyn i awdurdodau lleol gydymffurfio â safonau'r Gymraeg⁵. Mae'r safonau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, hybu'r Gymraeg, gweithredu (sef gweithgareddau mewnol sefydliad) a chadw cofnodion. Yn ogystal â rhoi'r gofyn ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ysgrifenedig yn Gymraeg mae safonau sy'n ymwneud â chyfarfodydd i drafod llesiant unigolion yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddarparu cyfieithu ar y pryd os yw unigolion yn dymuno hynny ac nad oes modd eu cynnal yn Gymraeg heb offer o'r fath. Mae'r safonau sy'n berthnasol i awdurdodau lleol felly i bob pwrpas yn golygu y dylai pobl sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol allu derbyn y gwasanaethau hynny yn Gymraeg. O gymryd y safonau hyn law yn llaw â darpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 felly byddai'n deg dweud bod y gyfraith mewn egwyddor yn gallu rhoi peth sicrwydd i unigolion y dylent allu derbyn gwasanaethau cymdeithasol yn Gymraeg os dymunant hynny.

2.4 Er 30 Mai 2019 mae gofyn i gyrrff iechyd gydymffurfio â safonau'r Gymraeg⁶. Mae'r safonau hyn yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu (sef gweithgareddau mewnol sefydliad) a chadw cofnodion. Yn yr achos hwn ni cheir safonau yn ymwneud â llesiant unigolion. Er hynny, ceir safon sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd yn nodi i ba raddau y gallant gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg. Mae gofyn iddynt hefyd nodi'r camau y bwriadant eu cymryd i gynyddu eu gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg ac amserlen ar gyfer gwneud hynny.

2.5 Rwy'n cydnabod bod anawsterau ar hyn o bryd a fyddai'n ei gwneud yn anodd sicrhau bod modd cynnig gwasanaethau clinigol yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg i bawb. Mae hyn yn cynnwys diffyg siaradwyr yn y gweithlu iechyd yn ogystal â diffyg arfau diagnostig megis profion gwybyddol. Mae mawr angen i'r Llywodraeth ac eraill megis Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn ogystal â'r byrddau iechyd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er hynny, gobeithiaf yn fawr y bydd y safonau y mae gofyn i'r cyrrff iechyd gwrdd â hwy yn mynd beth o'r ffordd tuag at o leiaf godi ymwybyddiaeth o'r angen am ddarparu gofal yn y Gymraeg. Er hynny, mae peidio â derbyn gofal iechyd yn y Gymraeg i nifer, yn arbennig cleifion hŷn, pobl ifanc a phobl â phroblemau iechyd meddwl yn golygu bod diffyg yn effeithlonrwydd a diogelwch y gwasanaethau hynny. Gall hynny effeithio yn andwyol ar brofiad pobl y darperir gwasanaethau iechyd iddynt ac mae'n bosibl y gallasant ddioddef canlyniadau andwyol. Ystyrier, er enghraifft, ganfyddiadau adroddiad a wnaed gan fy rhagflaenydd fel Comisiynydd ar y cyd ag Alzheimer's Society Cymru⁷ yn edrych ar brofiad siaradwyr Cymraeg o wasanaethau dementia. Mae'r adroddiad yn

⁵ Gweler y safonau perthnasol mewn [hysbysiadau cydymffurfio](#) ar gyfer pob awdurdod lleol sydd ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

⁶ Gweler y rheoliadau perthnasol i sefydliadau iechyd yn y fan hon <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2018/441/made/welsh?view=plain>

⁷



enghreifftio sefyllfa lle bu raid i weithiwr gofal gyfieithu ar gyfer seiciatryddion di-Gymraeg oedd yn cynnal prawf dementia gydag unigolion. Mae profion o'r fath yn cael eu defnyddio i bennu gofal pobl ac mae ymchwil yn dangos pa mor bwysig yw sicrhau bod profion dementia addas i bobl ddwyieithog ar gael yn safonol yn y Gymraeg er mwyn cael canlyniadau cywir⁸. Buaswn yn synnu petai'r enghraifft hon yn unigryw o unigolyn yn derbyn gofal iechyd o ansawdd isel oherwydd nad oedd ar gael yn y Gymraeg⁹.

- 2.6 Nid wyf o'r farn fod y memorandwm esboniadol yn cydnabod yn ddigonol bwysigrwydd darparu gwasanaethau iechyd Cymraeg i siaradwyr Cymraeg fel mater o ansawdd gwasanaethau a gynigir. Pryderaf felly na fyddai'r Gymraeg yn greiddiol i ystyriaethau ansawdd gwasanaethau iechyd. O'r herwydd, pryderaf na fyddai unrhyw adroddiadau blynyddol y byddai gofyn i Weinidogion Cymru, byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbenigol eu llunio yn unol ag Adran 2 y Bil mewn perthynas â gwella ansawdd gwasanaethau iechyd yn mynd i'r afael â phwysigrwydd darparu gwasanaethau clinigol yn y Gymraeg. Gofynnaf ichi fel Pwyllgor bwysio i sicrhau y cydnabyddir yn llawn y gall peidio â darparu gwasanaethau iechyd yn y Gymraeg fod yn fater o ddiffyg ansawdd gwasanaethau iechyd ac yr adlewyrchir hynny yn y Bil hwn a darpariaethau cysylltiedig.
- 2.7 Gyda golwg i'r dyfodol ar weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru o 'ddull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol' fel y nodir yn *Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*¹⁰, credaf bod angen dechrau trafodaeth o ddifrif am beth mae hynny yn ei olygu yn ymarferol o safbwynt cleifion sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn arbennig o wir gyda symudiad eisoes ar droed i 'gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor o amgylch anghenion a dewisiadau'r unigolyn, fel nad oes gwahaniaeth pwy sy'n darparu'r gwasanaethau unigol'¹¹.

⁸ Astudiodd ymchwil Tracey Morgan, Ruth Crowder. 'Mini Mental State Examinations in English: are they suitable for people with dementia who are Welsh speaking?', 2003.

<http://journals.sagepub.com/doi/abs/10.1177/1471301203002002009> ymateb pobl ddwyieithog oedd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt i brawf gwybyddol MMSE (Mini Mental State Examination). Dangoswyd bod pobl yn sgorio'n wahanol wrth wneud y prawf yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fel y nodir yn yr ymchwil:

'It is felt that misleading results are being achieved for Welsh speaking patients. In the context that decisions about the allocation of health and social care services are increasingly made on the basis of people's scores on a screening instrument this may have potentially significant consequences, both for those concerned whose ability to live independently may be questioned and also for the health and social care services where resources may be inappropriately targeted.'

⁹ Gweler er enghraifft sylwadau mewn adroddiad gan Fwrdd Iechyd Cymuned Cymru yn edrych ar brofiadau cleifion o gyfathrebu â'r GIG, er enghraifft: "Hoffwn weld mwy o Feddygon Teulu yn siarad Cymraeg – cefais brofiad lle'r oedd y MT yn cael trafferth rhoi diagnosis, oherwydd problemau cyfathrebu â'r claf." A "Gofal nyrsio i'r henoed – nid ydynt yn meddwl am yr hyn mae'r claf yn gallu gwneud – mae'n siaradwr Cymraeg ac yn drwm ei glyw, a chymerwyd yn ganiataol fod arno ddementia."

¹⁰ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cymru-iachach-ein-cynllun-iechyd-a-gofal-cymdeithasol.pdf>

¹¹ Ibid. Tud. 5.



3. Rhan 3 – Dyletswydd Gonestrwydd

3.1 Yn unol â'r hyn a nodaf uchod yn adran 2.5 gofynnaf ichi fel Pwyllgor geisio sicrhau y rhoddir y Gymraeg yn ganolog i'r ddyletswydd gonestrwydd a fydd ar gorff GIG. Mae hyn oherwydd ei bod yn bosibl y gallasai peidio â chynnig gwasanaeth Cymraeg i unigolyn arwain at ganlyniadau andwyol mewn rhai achosion. Os bydd y Llywodraeth yn dyroddi canllawiau yn unol ag adran 10, Rhan 3, dylid sicrhau eu bod yn cydnabod yn llawn ynddynt bwysigrwydd darparu gwasanaethau ieched yn Gymraeg ac y gallasai peidio â chynnig gwasanaeth Cymraeg i unigolion arwain at ganlyniadau andwyol mewn rhai achosion.

4. Rhan 4 - Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol

4.1 Mewn perthynas â Rhan 4, adran 16 y Bil arfaethedig dylwn nodi fod gennyf i fel Comisiynydd y Gymraeg yn unol â Rhan 5 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 bwerau i ymchwilio i fethiant cyrff iechyd ac awdurdodau lleol fel ei gilydd i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Mae adran 20 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd yn gwneud darpariaethau sy'n galluogi Comisiynydd y Gymraeg i weithio ar y cyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd y gallai pwnc ymchwiliad penodol i orfodi safonau ("ymchwiliad y Comisiynydd") hefyd fod yn destun ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae adran 67 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cymru) 2019 hefyd yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â chwynion a materion y mae'r Ombwdsmon yn ystyried ymchwilio a allai fod yn destun ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg¹². Nid wyf yn awgrymu y dylid rhoi pwerau neu beidio i Gorff Llais y Dinesydd mewn perthynas â chwynion am wasanaethau yn unol â safonau'r Gymraeg. Yn hytrach, wrth ichi ystyried y ddeddfwriaeth fy mwriad yw eich gwneud yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn a bod hawl proses gan 'berson' (neu berson sy'n gweithredu ar ei ran) i wneud cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch diffyg cydymffurfio â safon neu safonau.

5. Rhan 5 – Amrywiol a Chyffredinol ac Atodlen 3

5.1 Mae'n bwysig y bydd gwasanaethau'r corff hwn yn cael eu darparu yn Gymraeg yn gyson trwy Gymru. O'r herwydd, croesawaf y bwriad i sicrhau y bydd y Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Nodaf y bwriad i wneud hynny yn Atodlen 3 y Bil drwy ddiwygio Atodlen 6 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Er mwyn sicrhau y bydd gofyn i'r Corff newydd gydymffurfio â safonau cyn gynted ag y bo modd ac er mwyn hwyluso trosglwyddo'r dyletswyddau hyn yn llyfn o'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a'r Cynghorau Iechyd Cymuned, awgrymaf mai'r dull gorau fyddai trwy ddiwygio'r cyfeiriadau at y cyrff hyn yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018 a bod hynny yn cael ei adlewyrchu yn Atodlen 3 y Bil hwn. Dyma'r hyn a wnaed yn achos Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) fel y gwelir yn Rhan 7, 72 y Bil hwnnw. Mae croeso ichi gysylltu â mi petaech yn dymuno trafod y mater penodol hwn ymhellach.

12



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gobeithio y bydd y sylwadau hyn o ddefnydd ichi wrth ichi ystyried y Bil.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Roberts
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru